

Fy nghyf / My
ref:

Llinell Uniongyrchol /
Direct Line: 01267
246522

Dyddiad /
Date:
5 Chwefror
2021

Annwyl riant / gofalwr

Heddiw mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, wedi cadarnhau y gall plant cynradd y Cyfnod Sylfaen dychwelyd i'r ysgol ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb ar ôl hanner tymor mis Chwefror.

Mae achosion o'r Coronafeirws yn dal i gwmpo ledled Cymru, sy'n ein galluogi i ddechrau cynllunio ar gyfer dychweliad disgyblion i'r ysgol yn raddol ac yn hyblyg, gan ddechrau ar ôl 22 Chwefror gyda phlant 3 i 7 oed.

Gwyddom fod llai o risg o drosglwyddo'r feirws ymhlith y plant lleiaf a bod treulio cyfnod mor hir gartref yn cael effaith negyddol ar eu datblygiad corfforol a meddyliol a'u llesiant.

Byddwn yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion yn awr i gynllunio ar gyfer dychweliad diogel disgyblion i'r ystafell ddosbarth, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, yn ogystal â'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, a sut byddwn yn rheoli hyn yn lleol.

Gallwn eich sicrhau mai diogelwch y disgyblion a'r staff yw ein prif flaenoriaeth, a byddwn yn adolygu'r mesurau iechyd a diogelwch sydd gennym ar waith ac unrhyw fesurau ychwanegol y gallai fod eu hangen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd cyllid ar gael i brynu gorchuddion wyneb o ansawdd gwell i holl staff ysgolion, a hefyd mae'n cyflwyno trefn lle bydd staff ysgol asymptomatig yn cael eu profi ddwy waith yr wythnos gan ddefnyddio dyfeisiadau profion llif unffordd cyflym. Rwy'n siŵr bod hyn yn rhoi sicrwydd pellach i chi fel rhieni, yn ogystal â'n staff.

Fe aiff peth amser cyn y bydd yr holl ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb, ac, o ganlyniad, bydd ysgolion yn parhau i sicrhau bod darpariaeth ar y safle ar gael i blant agored i niwed a phlant gweithwyr critigol ar ôl hanner tymor.

Ni ddylai plant sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (sy'n gwarchod) fynychu'r ysgol tan o leiaf 31 Mawrth, a bydd y disgyblion hyn, yn ogystal â disgyblion hŷn, yn parhau i ddysgu gartref yn ystod yr adeg hon, a hynny gyda chymorth athrawon.

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Bydd caniatáu i ragor o grwpiau blwyddyn ddychwelyd yn cael ystyriaeth fel rhan o adolygiad 21 diwrnod Llywodraeth Cymru ar 19 Chwefror, pryd y cyhoeddir manylion pellach.

Bydd ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol yn dal i fod ar agor lle bo hynny'n bosibl.

Mae'n hynod bwysig ein bod ni i gyd yn dal ati i ddilyn y canllawiau ynghylch golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol a gorchuddion wyneb. Atgoffwch eich plant am hyn a gofalwch eich bod yn dal i wisgo gorchudd wyneb wrth ollwng a chasglu eich plant, peidiwch ag ymgynnull wrth gathau'r ysgol, a chadwch eich pellter wrth eraill - ni allwn orbwysleisio pa mor bwysig yw hyn i leihau trosglwyddiad yn ein cymunedau.

Mae'n bwysig cofio hefyd nad yw dychwelyd i'r ysgol yn golygu dychwelyd i fywyd normal, ac ni ddylai plant fod yn cymysgu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae ein hysgolion wedi llwyddo i ddarparu amgylchedd diogel i'n plant a'n staff, ond dim ond yn yr ysgol y mae swigod ystafell ddosbarth yn berthnasol, a rhaid cydymffurfio â'r gofynion i 'aros gartref.


Bydd ysgolion yn cael eu hadolygu'n gyson gan ystyried y nifer diweddaraf o achosion, y rhif R, a nifer y cleifion yn yr ysbyty. Gallai cynnydd mewn cyfraddau trosglwyddo arwain at gau ysgolion eto.

Cofiwch, os oes gennych chi neu'ch plentyn neu unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref unrhyw un o symptomau Covid-19, rhaid i chi hunanynysu a chael eich profi ar unwaith. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch ysgol os yw eich plentyn yn profi'n positif.

I gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i'n gwefan sirgar.llyw.cymru/addysg
Bydd eich ysgol mewn cysylltiad cyn gynted ag y bydd unrhyw wybodaeth bellach ganddi am ddychweliad eich plentyn i'r ysgol.

Hoffem ddiolch i chi unwaith eto am eich holl gydweithrediad a chefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gywir



Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English